**PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**13 MEHEFIN 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod o bell ddydd Mercher, 13 Mehefin 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rob Davies (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, Steve Copple, Mared Eastwood, Ian Hodge, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Gina Maddison, Roz Mansell, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Arnold Woolley ac Antony Wren

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Jean Davies

**HEFYD YN BRESENNOL FEL ARSYLWR**: Yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

**DIRPRWYON**: Y Cynghorydd Bernie Attridge (ar ran y Cynghorydd Linda Thew)
Y Cynghorydd Mel Buckley (ar ran y Cynghorydd Ted Palmer)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

1. **PENODI CADEIRYDD**

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol, nododd y Pwyllgor yn ffurfiol y dylid penodi'r Cynghorydd Rob Davies fel Cadeirydd y Pwyllgor.

2. **PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge y Cynghorydd Steve Copple. Eiliodd y Cynghorydd Antony Wren y cynnig hwnnw.

Gan na chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, cymeradwywyd hyn yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Steve Copple yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Bernie Attridge, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod eitem rhif 6 ar y Rhaglen yn ymwneud â rolau'r Cynghorwyr, ac na fyddai angen i'r Cynghorwyr ddatgan cysylltiad fel arfer. Yr unig adeg y byddai angen gwneud hynny yw os oedd Cynghorwr wedi'i ganfod yn euog o drosedd yn y gorffennol, gan y byddai mewn sefyllfa wahanol i weddill y pwyllgor ac angen datgan lefel wahanol o gysylltiad i gysylltiad personol.

**PENDERFYNWYD:**

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau.

## 4. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2023 fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Steve Copple ac Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 5. GWIRIADAU'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD AR GYFER CYNGHORWYR

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlinellodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) gyd-destun a lefel risg isel y materion a drafodwyd. Cynhaliwyd cryn dipyn o wiriadau yn anffurfiol cyn ethol yr ymgeiswyr, gan gynnwys cam ffurfiol llofnodi'r Datganiad cyn gallu sefyll fel ymgeisydd. Byddai hyn yn cymell rhai pobl i beidio â sefyll. Roedd yn bwysig amddiffyn unigolion diamddiffyn, enw da'r Cyngor a rôl y Cynghorydd.

Amlinellodd y Prif Swyddog lefel y datgeliad y gallai'r Cynghorwyr ei ddisgwyl a'r cymhlethdodau cyfreithiol yr oedd yr adroddiad yn eu cynnwys. Roedd yn gydbwysedd rhwng yr hawl i wybod, preifatrwydd unigolyn ac adsefydlu sydd wedi'i ymgorffori yn y ddeddfwriaeth ac yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i gael datgeliad. Gwelwyd gwybodaeth am y tair lefel o wiriadau ym mhwynt 1.01 yr adroddiad, gyda'r lefel fanwl yn ofynnol ar gyfer y Cabinet a'r Paneli Mabwysiadu a Maethu yn sgil y wybodaeth sensitif a fyddai'n cael ei rhannu. Yna, cyfeiriodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) at bwynt 1.07 yr adroddiad, gan ddweud y dylid cynnal gwiriadau safonol ar gyfer y Cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, gan eu bod yn cyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Byddai'r gwiriadau sylfaenol yn ddigonol ar gyfer y Cynghorwyr eraill nad oeddent yn dal unrhyw un o'r rolau hyn.

Eglurwyd y byddai canlyniadau'r gwiriadau'n cael eu hanfon at y Prif Swyddog (Llywodraethu) fel Swyddog Monitro, ac y byddai ef yn sicrhau eu bod yn aros yn gyfrinachol. Fodd bynnag, pe canfyddid bod gan aelod euogfarn a fyddai'n eu gwneud yn anaddas ar gyfer eu rôl, yna byddai trafodaethau'n cael eu cynnal â'r Aelod Cabinet neu'r Arweinydd Grŵp. Nid oedd gan y Prif Swyddog unrhyw awdurdod i benderfynu pwy sy'n eistedd ar y Cabinet na'r Pwyllgorau Craffu; byddai hyn yn dibynnu ar gydweithrediad yr Arweinydd ac Arweinwyr y Grwpiau. Pe canfyddid na ddylai Cynghorydd a gafwyd yn euog o drosedd a'i ddedfrydu i fwy na thri mis yn y carchar fod wedi bod yn gymwys i sefyll yn y lle cyntaf, byddai'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Canlyniadau, ac Arweinydd eu Grŵp yn cael eu hysbysu. Golyga hyn y byddent yn cael eu diarddel oherwydd eu heuogfarn, bod eu rôl yn dod yn wag ac y byddai angen cynnal isetholiad. Byddai adroddiad yn cael ei anfon i swyddfa'r Ombwdsmon, gan ddilyn proses a fyddai'n rhoi ystyriaeth annibynnol a diduedd o breifatrwydd yr unigolyn hwnnw. Byddai'r

wybodaeth hon yn cael ei chadw'n gyfrinachol, gan gyfyngu ar fynediad yn dilyn canllawiau a osodwyd gan ddeddfwriaeth.

Roedd y Cynghorydd Bernie Attridge yn cefnogi'r adroddiad pwysig iawn hwn yn llawn. Gofynnodd a oedd y Prif Swyddog wedi cymryd cyngor gan Swyddogion Monitro eraill i ganfod beth yr oedd awdurdodau eraill yn ei wneud o ran gwiriadau manwl y DBS, ac a allai CLlLC fynd â hyn i'r lefel nesaf. Awgrymodd hefyd y dylid lobio Llywodraeth Cymru (LlC) er mwyn gallu gwneud newidiadau i'r canllawiau fel bod gwiriadau DBS yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod lleol bob 4 mlynedd.

Cytunodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) â'r pwynt am ffurfioldeb y gwiriadau, gan ddweud nad oedd y rhain yn cael eu cynnal ar gyfer pob Cynghorydd cyn iddynt sefyll, ond bod lefelau eraill o amddiffyniad wedi'u sefydlu. Gan gyfeirio at y pwynt am lobio, dywedodd mai'r sail ar gyfer cynnal y gwiriadau manwl ar gyfer y rhan fwyaf o bobl oedd eu bod yn dod i "gysylltiad rheolaidd heb oruchwyliaeth ag unigolion diamddiffyn". Roedd rolau gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal y Cyngor yn gofyn am wiriadau manwl rheolaidd, gan gynnwys rhestrau gwaharddedig, yn sgil eu cyswllt rheolaidd heb oruchwyliaeth ag unigolion diamddiffyn. Gofynnodd i aelodau'r Pwyllgor pa mor aml yr oeddent yn dod i gysylltiad heb oruchwyliaeth ar eu pennau eu hunain ag unigolion diamddiffyn. Roedd yn fwy tebygol o fod gydag oedolyn na phlentyn, a fyddai yng nghwmni rhiant neu warcheidwad. Byddai dod i gysylltiad heb oruchwyliaeth ag unigolyn diamddiffyn fel hyn yn cynnig tystiolaeth hanfodol er dibenion lobio, a byddai'n ei gwneud yn bosib uwchgyfeirio hyn drwy Grŵp y Swyddogion Monitro ac ar y cyd ag awdurdodau eraill ymlaen i CLlLC, LlC a San Steffan i newid y gyfraith.

Gan gyfeirio at y pwynt am sut yr oeddem yn cymharu ag awdurdodau eraill, cadarnhaodd y Prif Swyddog ei fod wedi gweld polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gan ddweud fod yr hyn oedd dan ystyriaeth yn fwy beichus na pholisi Wrecsam, gan nad oedd Wrecsam yn ystyried bod Aelodau Craffu'n cyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Roedd Aelodau Sir y Fflint wedi gofyn am y lefelau uchaf posib o wiriadau ar gyfer eu rolau. Gallai'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wrthod darparu'r lefel o wiriadau y mae ein polisi'n gofyn amdanynt, ond mae'n briodol i ni holi yn hytrach na chyfyngu ar gwmpas y ceisiadau. Roedd yn barod i gyflwyno hyn eto i'r Pwyllgor fel dogfen bolisi i'w chymeradwyo.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Steve Copple at yr argymhellion, gan ofyn a oedd yna bolisi a oedd yn cynnwys y prosesau ar gyfer delio â'r gwiriadau hyn, a nododd ei fod yn teimlo bod y cyfnod o 4 blynedd rhwng gwiriadau'n rhy hir o ystyried cyfnod etholedig y Cynghorwyr. Ymatebodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) gan ddweud fod gan y Cyngor gymysgedd o bolisïau a phenderfyniadau, ond cytunodd i'w ffurfioli mewn dogfen y gellid ei hadolygu yn y dyfodol. Gan gyfeirio at amlder y gwiriadau, dywedodd mai penderfyniad y Pwyllgor oedd hyn ac y gellid ei newid i bob 3 blynedd yn unol â gwiriadau'r gwasanaethau cymdeithasol.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Mared Eastwood.

Cynigiodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ddiwygiad i'r argymhellion, sef cael gwared â gwiriadau sylfaenol ar gyfer pob Cynghorydd, gan amlinellu ei resymau dros hyn. Teimlai y dylid cynnal gwiriadau sylfaenol ar gyfer aelodau'r Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ond nid ar gyfer gweddill y Cynghorwyr nad oeddent yn eistedd ar y pwyllgorau hyn. Ni chefnogwyd y cynnig hwn, felly ni chafodd ei gyflwyno.

Cytunodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) gyda'r sylwadau a wnaeth y Cynghorydd Ibbotson nad oedd cosb y gallai'r Cyngor ei gosod, felly nad oedd pwrpas cynnal y gwiriadau. Byddai'r gwiriadau'n cynnig tystiolaeth i benderfynu a ddylid penodi rhywun i'r Cabinet neu i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Hodge y gellid ystyried bod nifer o'r trigolion yr oedd wedi ymweld â nhw ers dod yn Gynghorydd yn unigolion diamddiffyn, a theimlai y byddai cael Gwiriad DBS fel rhan o'i rôl yn cynnig tawelwch meddwl iddynt. Teimlai y dylai'r gwiriadau fod yn orfodol i bob Cynghorydd, gan y byddai'n cynnig y lefel honno o ardystiad iddo ef ei hun a hefyd i'r unigolyn yr oedd yn ymweld â nhw.

Gofynnodd y Cynghorydd Antony Wren a ddylai'r Gwiriadau DBS ar gyfer Pwyllgorau Craffu fod yn berthnasol i Aelodau eraill a oedd yn gymwys i ddirprwyo ar y pwyllgorau hynny. Cytunodd y Prif Swyddog (Llywodraethu), gan ddweud y dylai trafodaeth gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gynnwys y ffaith y gallai unrhyw Gynghorydd gael ei enwebu ar y Pwyllgorau Craffu hyn fel dirprwy ar fyr rybudd. Efallai na fyddent yn cytuno, gan ddweud mai ar gyfer aelodau sefydlog neu rai sydd wedi'u henwebu y dylid cynnal y gwiriadau, nid y dirprwyon. Ond gallai fod yn werth holi. Gofynnodd y Cadeirydd a ellid ymchwilio i hyn.

Roedd y Cynghorydd Bernie Attridge yn deall y rheswm y tu ôl i sylwadau'r Cynghorydd Ibbotson, ond teimlai y dylid cynnwys penderfyniad ychwanegol fel nad oedd cyfle i unrhyw un wrthod y gwiriadau hyn. Teimlai fod y rhan fwyaf o Gynghorwyr yn dod i gysylltiad dyddiol ag unigolion diamddiffyn ac y byddai'n talu am y gwiriadau iddo ef ei hun. Dywedodd y byddai, fel Arweinydd Grŵp, yn cwestiynu pe bai unrhyw aelod o'i grŵp yn gwrthod cael y gwiriadau sylfaenol. Nes bod hyn yn orfodol, teimlai mai'r hyn a oedd yn cael ei gynnig oedd yr ateb gorau. Cynigiodd yr argymhellion gyda'r argymhelliad ychwanegol.

Awgrymodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y geiriad canlynol ar gyfer y trydydd argymhelliad:-

"Lobio drwy rwydweithiau proffesiynol a CLILC am newidiadau i'r ddeddfwriaeth er mwyn galluogi lefel fanwl o wiriadau mewn perthynas â phob Cynghorydd, o ystyried natur ddiamddiffyn y bobl y maent yn eu gwasanaethu."

Dywedodd y Cynghorydd Roz Mansell ei bod wedi gwneud cais am y gwiriad bythefnos cyn dod yn Gynghorydd. Roedd yn costio £25 ac yn werth pob ceiniog gan ei fod yn cynnig y sicrwydd hwnnw iddi hi ac i'r bobl yr oedd yn dod i gysylltiad â nhw.

Cynigiwyd yr argymhellion, gan gynnwys yr argymhellion ychwanegol, gan y Cynghorydd Bernie Attridge ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylai'r Cyngor gynnal gwiriadau DBS ar gyfer Cynghorwyr fel a ganlyn:

(a) Gwiriadau manwl (heb wiriad rhestrau gwaharddedig) ar gyfer Aelodau sy'n gweithredu fel

(a) Aelodau Cabinet

(b) Aelodau'r paneli maethu a mabwysiadu

(b) Gwiriadau safonol ar gyfer

(a) Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid

(b) Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(c) Lobio drwy rwydweithiau proffesiynol a CLILC am newidiadau i'r ddeddfwriaeth er mwyn galluogi lefel fanwl o wiriadau mewn perthynas â phob Cynghorydd, o ystyried natur ddiamddiffyn y bobl y maent yn eu gwasanaethu.

## 6. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM WEITHDAI AELODAU, BRIFFIADAU A SEMINARAU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd at y Rhaglen Gynefino i Aelodau lwyddiannus a gyflwynwyd yn dilyn yr Etholiad diwethaf. Cynigiwyd cyflwyno rhaglen thematig wedi'i thargedu'n fwy manwl y byddai'r Aelodau'n elwa ohoni. Roedd CLILC yn adolygu eu fframwaith ac yn gobeithio ei ailgyflwyno o fewn y 12 mis nesaf. Amlinellodd Atodiad 1 yr adroddiad y pynciau a drafodwyd yn y sesiynau cynefino, a'r bwriad oedd ailedrych ar rai o'r sesiynau er mwyn eu hadnewyddu a'u diweddaru i gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed. Tynnodd sylw'r Aelodau at bwynt 1.05 yr adroddiad a oedd yn amlygu rhai o'r pynciau generig y dylid eu cynnwys yn y rhaglen, gan amlinellu'r pum maes allweddol, sef pynciau seiliedig ar sgiliau, gwybodaeth sefydliadol, moeseg, seiliedig ar wasanaeth neu bwnc a sesiynau rheoleiddio neu dechnegol. Ceisiodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd farn yr Aelodau am y pynciau yr oedden nhw'n meddwl y byddai'n fuddiol eu cynnwys ar y rhaglen hyfforddi.

Gofynnodd y Cynghorydd Roz Mansell faint y mae'r sesiynau hyfforddi'n ei gostio. Cadarnhawyd y byddai'r sesiynau'n cael eu cyflwyno gan swyddogion penodol, gyda Data Cymru'n darparu sesiynau am ddim ar reoli data a hyfforddiant llythrennedd carbon. Byddai'r sesiynau am ddim, a'r Cyngor yn talu am unrhyw gostau bychain. Byddai'r rhan fwyaf o'r sesiynau'n cael eu cyflwyno'n fewnol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gina Maddison at y polisi Gweithio Ar Eich Pen Eich Hun, gan ofyn a fyddai hwn yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant Diogelu neu a oedd gan y Cyngor bolisi Gweithio Ar Eich Pen Eich Hun y gellid ei rannu gyda'r Cynghorwyr. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod CLILC yn canolbwyntio ar sesiynau ar hyn yn eu Fframwaith. Roedd gan y Cyngor Bolisi Gweithio Ar Eich Pen Eich Hun ar gyfer gwahanol feysydd gwaith, a chytunodd i gynnwys hyn fel Cam Gweithredu. Roedd Iechyd a Diogelwch a

Diogelu i Aelodau yn rhan o'r amserlen a'r broses ddatblygu ar gyfer y 12 mis nesaf a thu hwnt.

Ceisiodd y Cynghorydd Bernie Attridge gadarnhad mai'r Pwyllgor oedd yn clustnodi eitemau ar gyfer y Rhaglen Hyfforddi Aelodau, gan ofyn a fyddai unrhyw sesiynau hyfforddi y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn eu mabwysiadu. Gofynnodd sut yr oedd Aelodau eraill yn cynnig awgrymiadau ar gyfer eu hanghenion hyfforddi os nad oeddent ar y Pwyllgor hwn, gan nodi bod y Pwyllgor Safonau wedi gofyn am ragor o arweiniad mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol. Teimlai ei bod yn bwysig cynnig yr arweiniad hwn cyn gynted ag y bo modd, gan fod y cyfryngau cymdeithasol yn adnodd buddiol i'w ddefnyddio gyda'r arweiniad priodol.

Adroddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod canllawiau LIC dan Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol yn nodi mai Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd oedd yn gyfrifol am raglen hyfforddi'r Aelodau. Roedd y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn amod fod gan Aelodau Gynlluniau Datblygu Unigol a bod eu hamserlen a'u hanghenion hyfforddi'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y sgiliau cywir gan yr Aelodau.

Cytunodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) â'r sylwadau a wnaed am y Rhaglen Hyfforddi. Roedd trafodaethau'n arfer cael eu cynnal ar ddechrau cyfarfodydd pwyllgorau i alluogi'r Aelodau i awgrymu syniadau am hyfforddiant ar themâu penodol a fyddai o fudd iddynt. Gellid cynnwys hyn fel eitem reolaidd ar raglen y cylch nesaf o gyfarfodydd er mwyn canfod pa hyfforddiant sydd ei angen ar y pwyllgor hwnnw dros y 12 mis nesaf. Hefyd, byddai posib ymgorffori hyfforddiant o ffynonellau eraill ar y cyfryngau cymdeithasol, parch a sut mae'r Cynghorwyr yn mynegi eu barn heb dorri'r Cod. Roedd Prif Swyddogion hefyd yn cynnig hyfforddiant allai fod o fudd i'r Aelodau. Byddai'r pecyn yn cael ei ddwyn ynghyd o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn gallu llunio rhaglen gynhwysfawr ac amrywiol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Johnson at ei gyfnod fel aelod o'r Pwyllgor Safonau. Pan oedd eitem yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor, roedd sesiwn hyfforddi'n cael ei threfnu 30 munud cyn dechrau'r cyfarfod, ac roedd yn gweld hyn yn hynod fuddiol. Roedd cael y sesiwn 30 munud honno ar adroddiad, a oedd yn cynnwys gwybodaeth gefndir, goblygiadau cyfreithiol a'r camau nesaf, yn fuddiol iawn.

Cytunodd y Prif Swyddog, gan ddweud bod y Pwyllgorau Safonau a Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys sesiwn hyfforddi yn y cyfarfod cyn cyflwyno adroddiad. Roedd hyn yn gyfle i Aelodau ofyn cwestiynau er eglurder a gellid ei gysylltu â rhaglenni gwaith swyddogion. Gellid cynnig sesiynau hirach ar gyfer pynciau mwy cymhleth er mwyn caniatáu mwy o amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaethau. Gellid hefyd cynnig sesiynau byr y gellid eu cynnal ar ddechrau cyfarfod i helpu Aelodau. Mae mwy o ddyddiadau Cyngor Sir wedi'u cadw yn nyddiadur yr Aelodau nag oedd eu hangen, a byddai'r slotiau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer sesiynau hyfforddi neu weithdai os nad oedd eu hangen ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor. Byddai Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn mynychu cyfarfodydd Tîm y Prif Swyddogion i sicrhau bod hyfforddiant a gweithdai yn cael eu hymgorffori yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Roz Mansell a fyddai'r sesiynau'n cael eu cynnal ar Zoom. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddai pob sesiwn yn cael ei haddasu i gefnogi'r hyn a oedd yn cael ei gyflwyno.

Byddai'r sesiynau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau, gan y gallai rhai cwmnïau ddewis cyflwyno sesiynau o bell os ydynt wedi'u lleoli yn Llundain neu Gaerdydd. Roedd sesiynau wedi cael eu trefnu wyneb yn wyneb yn ystod y dydd ac ar Zoom gyda'r nos, a oedd yn cynnig dewis i'r Aelodau.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) at y confensiwn oedd yn cael ei ddatblygu lle'r oedd un sesiwn yn cael ei darparu wyneb yn wyneb yn ystod y dydd, gyda'r llall yn cael ei darparu o bell gyda'r nos. Roedd yr Aelodau wedi gwerthfawrogi'r dull hwn.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'u heilio gan y Cynghorydd Roz Mansell.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y byddai Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn cynnal 'dadansoddiad o anghenion hyfforddi' ar gyfer pob Aelod er mwyn llywio rhaglenni datblygu'n well at y dyfodol.
(b) Os oedd gan Aelodau unrhyw awgrymiadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol, eu bod yn cysylltu â Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd i'w trafod.
(c) Cyflwyno cynllun Hyfforddiant a Datblygu i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Medi.

## 7. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad, gan gynnig trosolwg o'r eitemau a oedd wedi'u cynnwys ar gyfer y pwyllgor. Anogwyd aelodau'r pwyllgor i awgrymu eitemau pellach i'w cynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a fyddai'n cael ei datblygu dros amser.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'u heilio gan y Cynghorydd Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd; a
(b) Rhoi awdurdod i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 8. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.13pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**